Y penderfyniad i erlyn

Erlyniadau

CPS
GWASANAETH ERLYN Y GORON

Mae'r daflen hon yn egluro sut y penderfynir erlyn ai peidio

يتوفر هذا المنشور باللغة العربية

এই বইটি বাঙলা ভাষাতেও পাওয়া যাবে।

本出版物備有中文版本供索取。

આ પ્રકાશન ગુજરાતીમાં ઉપલબ્ધ છે.

ਇਹ ਪ੍ਰਕਾਸ਼ਤ ਪੰਜਾਬੀ ਵਿਚ ਉਪਲਬੱਧ ਹੈ।

یہ اشاعت اُردو میں دستیاب ہے۔

यह प्रकाशन हिन्दी में उपलब्ध है।

This publication is also available in English

Mae'r daflen hon yn egluro sut y penderfynir erlyn ai peidio

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yw'r prif awdurdod erlyn yng Nghymru a Lloegr. Pennaeth y CPS yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ac mae'n cynnwys pencadlys cenedlaethol a 42 Rhanbarth, un ar gyfer ardal pob heddlu lleol. Mae pob un o Ranbarthau'r CPS yn cael ei arwain gan Brif Erlynydd y Goron sy'n gyfrifol am erlyniadau o fewn y Rhanbarth hwnnw.

Cynnwys

Cefndir	2
Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	3
Arolygu	4
Dioddefwyr troseddau	6
Y Prawf Trothwy	7
Dewis Cyhuddiadau	7
Derbyn pledion euog	7
Llinell Gymorth i Ddioddefwyr	8
Cwynion	8

Erlyniadau

CPS

GWASANAETH ERLYN Y GORON

© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2004

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
01204 532121

ar gyfer Cyhoeddusrwydd y CPS
020 7796 8442

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Cefndir

Cyn i'r CPS gael ei ffurfio yn 1986, yr heddlu oedd yn penderfynu a ddylid mynd ag achosion i'r llys.

Heddiw, y CPS sy'n penderfynu a ddylai pobl gael eu herlyn yn y llys ai peidio. Ond, mae'r heddlu yn dal i ymchwilio i'r trosedd honedig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Erlynwyr y Goron yn penderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o gyflawni trosedd ai peidio, ac yn pennu'r cyhuddiad neu'r cyhuddiadau priodol. Mewn achosion ble bydd yr heddlu yn pennu'r cyhuddiad, sef achosion cyffredin, llai fel arfer, fe fyddant yn cadw at yr un egwyddorion.

Fe fyddwn yn penderfynu a ydym am erlyn ai peidio drwy ddefnyddio'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron i edrych ar ffeithiau'r achos penodol.



Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

Mae'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Côd) yn ddogfen gyhoeddus sy'n disgrifio'r egwyddorion cyffredinol y dylai Erlynwyr y Goron eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch achosion. Fe gewch chi gopi gan swyddfa leol y CPS.

Mae pob achos yn unigryw a rhaid ystyried pob un ar sail ei ffeithiau ei hun ac yn ôl ei deilyngdod, eto mae yna rai egwyddorion cyffredinol y mae'n rhaid i Erlynwyr y Goron eu dilyn wrth ymdrin â phob achos. Rhaid iddynt fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid iddynt beidio â gadael i unrhyw farn bersonol am darddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau crefyddol, safbwynt gwleidyddol na thueddfryd rhywiol y sawl a ddrwgdybir, y dioddefydd neu'r tyst, nac a ydynt yn wryw neu'n fenyw, ddylanwadu ar eu penderfyniadau.

Eu dyletswydd yw sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y trosedd cywir. Wrth wneud hynny, rhaid i Erlynwyr y Goron weithredu bob amser er budd cyfiawnder. Ni ddylent weithredu er mwyn cael barnu rhywun yn euog o drosedd yn unig.

Arolygu

Bydd pob achos y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei dderbyn gan yr heddlu yn cael ei arolygu er mwyn gwneud yn siwr ei bod hi'n briodol mynd ymlaen i erlyn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, Erlynwyr y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o drosedd ai peidio ac, os dylid, pa drosedd fyddai'n addas.

Wrth benderfynu a ddylid erlyn achos yn y llysoedd, bydd Erlynwyr y Goron yn ystyried dewisiadau eraill heblaw erlyn, dan amgylchiadau priodol. Mae hyn yn cynnwys rhoi rhybudd syml i oedolion neu roi cerydd neu rybudd i bobl ifanc.

Pan fyddwn yn derbyn ffeil oddi wrth yr heddlu, bydd Erlynydd y Goron yn darllen y papurau a phenderfynu a oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd ai peidio ac a yw hi er budd y cyhoedd mynd â'r unigolyn hwnnw i'r llys. Oherwydd y gall amgylchiadau newid, rhaid i Erlynydd y Goron arolygu'r achos yn barhaus. Os bydd Erlynydd y Goron yn ystyried newid y cyhuddiadau neu atal yr achos, fe fydd yn cysylltu â'r heddlu ble bynnag y bo modd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r heddlu ddarparu rhagor o wybodaeth a allai effeithio ar y penderfyniad.

Er bod yr heddlu a'r CPS yn cydweithio'n agos, rydym yn hollol annibynnol ar ein gilydd a'r CPS yn y pen draw sy'n gyfrifol am y penderfyniad i fwrw ymlaen ai peidio â throsedd ble cafodd rhywun ei gyhuddo.

Rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried y ddau gwestiwn canlynol wrth wneud eu penderfyniadau

A oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd?

Rhaid bod digon o dystiolaeth i roi 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn y diffynnydd. Mae gobaith realistig o euogfarn yn brawf gwrthrychol. Mae'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon, a dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae hwn yn brawf ar wahân i'r prawf y mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol eu hunain ei ystyried. Ni ddylai rheithgor neu lys ynadon farnu'r diffynnydd yn euog oni bai eu bod yn sicr ei fod ef neu hi yn euog.

Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried a ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys ac a yw'n ddibynadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw asesu ansawdd y dystiolaeth gan bob tyst cyn dod i benderfyniad. Nid yw penderfyniad i ollwng achos yn golygu bod yr erlynydd wedi penderfynu ei fod yn credu un tyst ac nid yn credu tyst arall.

Os nad oes gobaith realistig o euogfarn, rhaid peidio â bwrw ymlaen â'r achos, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol yw'r achos.

Os oes gobaith realistig o euogfarn, bydd Erlynydd y Goron yn gofyn y cwestiwn nesaf.

A yw hi er budd y cyhoedd i'r CPS ddod â'r achos i'r llys?

Ni fu erioed yn rheol yn y wlad hon bod yn rhaid erlyn pob trosedd yn awtomatig. Am y rheswm hwn, ym mhob achos, rhaid i Erlynydd y Goron ystyried budd y cyhoedd o barhau i erlyn, a rhoi ystyriaeth ofalus a theg i ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn cyn dod i benderfyniad.

Fe fydd achos fel arfer yn cael ei erlyn oni bai fod ffactorau budd y cyhoedd sydd yn erbyn erlyn yn amlwg yn drech na'r ffactorau o blaid erlyn.

Bydd y ffactorau budd y cyhoedd a all effeithio ar y penderfyniad i erlyn yn amrywio o achos i achos. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r trosedd honedig, mwyaf tebygol yw hi y bydd angen erlyn er budd y cyhoedd. Ar y llaw arall, mae'n debygol y bydd llai o angen erlyn os, er enghraifft, y byddai llys yn debygol o roi'r gosb leiaf neu gosb symbolaidd neu os oedd y golled neu'r niwed yn gysylltiedig â'r trosedd yn fychan ac wedi digwydd o ganlyniad i un digwyddiad.

Dioddefwyr troseddau

Mae'r CPS yn erlyn achosion ar ran trwch y boblogaeth ac nid er budd unrhyw unigolyn penodol yn unig. Felly, er bod buddiannau'r dioddefydd yn bwysig, nid dyma'r ystyriaeth olaf wrth benderfynu erlyn ai peidio. Fodd bynnag, wrth ystyried budd y cyhoedd, fe ddylai Erlynwyr y Goron bob amser ystyried canlyniadau'r penderfyniad i erlyn ai peidio o safbwynt y dioddefydd, ac unrhyw farn a fynegir gan y dioddefydd neu deulu'r dioddefydd.

Y Prawf Trothwy

Mae yna rai achosion ble na fyddai'n briodol rhyddhau person ar fechnïaeth ar ôl ei gyhuddo, ond nad yw'r dystiolaeth i sefydlu bod 'gobaith realistig o euogfarn' ar gael hyd yma. Er enghraifft, mae'n bosib nad yw tystiolaeth feddygol neu dystiolaeth arall gan arbenigwr wedi dod i law yn yr amser cyfyngedig sydd ar gael cyn cyhuddo. Fodd bynnag, rhaid cael tystiolaeth ddigonol er mwyn bod ag amheuaeth resymol o leiaf bod y person wedi cyflawni trosedd a rhaid i gyhuddo fod er budd y cyhoedd. Gelwir hyn yn Brawf Trothwy, ac mae'n cael ei gymhwyso yng nghamau cynnar yr achosion hyn am gyfnod cyfyngedig. Bydd y Prawf Côd Llawn yn cael ei gymhwyso cyn gynted â phosib wedi hynny.

Dewis Cyhuddiadau

Wrth arolygu achos, rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried bob amser a yw'r cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd yn gywir. Rhaid iddynt wneud yn siwr bod y cyhuddiadau yn adlewyrchu difrifoldeb y trosedd ac yn rhoi pwerau dedfrydu addas i'r llys. Y mae'r un mor bwysig bod y cyhuddiadau a ddewisir, a nifer y cyhuddiadau, yn caniatáu i'r achos gael ei egluro i'r llys mewn ffordd glir a syml.

Mae hyn yn golygu, o bryd i'w gilydd, y gall Erlynydd y Goron newid y cyhuddiad yn erbyn y diffynnydd os oes cyhuddiad sy'n gweddu'n well i amgylchiadau'r trosedd.

Derbyn pledion euog

Weithiau mae'n bosib y bydd diffynnydd eisiau pledio'n euog i rai cyhuddiadau, ond nid yr holl gyhuddiadau neu eisiau pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol, cyhuddiad llai difrifol o bosib. Ni ddylai Erlynwyr y Goron dderbyn hyn oni bai eu bod o'r farn y gall y llys draddodi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y trosedd.

Yr hyn na all Erlynwyr y Goron ei wneud yw gofyn i'r barnwr neu'r ynadon draddodi math arbennig o ddedfryd.

Llinell Gymorth i Ddioddefwyr

Os bydd arnoch angen rhagor o help neu gefnogaeth gallwch ffonio'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr ar —

0845 30 30 900

Cymorth i Ddioddefwyr sy'n rhedeg y gwasanaeth. Mae'n elusen annibynnol gyda gwirfoddolwyr a staff sydd wedi'u hyfforddi i roi cefnogaeth emosiynol, gwybodaeth a chymorth ymarferol i bobl sy'n dioddef yn sgil trosedd.

Mae'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr yn rhif lleol, ac yn fan cyswllt hollbwysig ar gyfer unrhyw un sydd wedi dioddef effeithiau trosedd, boed nhw wedi rhoi gwybod i'r heddlu ai peidio.

Gall y staff egluro'r gwasanaethau rhad ac am ddim, cyfrinachol sydd i'w cael trwy Cymorth i Ddioddefwyr a rhoi manylion cysylltu y Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr lleol neu'r Gwasanaeth i Dystion neu sefydliad arall os bydd angen.

Cwynion

Ein nod yw delio â chwynion yn llawn sensitifrwydd, yn deg ac yn gyfrinachol. Os oes sail i'ch cwyn fe wnawn ni ymddiheuro, ceisio unioni pethau a chymryd camau i sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Fe geisiwn ymateb i'ch cwyn o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich llythyr. Os na allwn anfon ateb llawn o fewn yr amser hwnnw, fe roddwn wybod i chi ein bod wedi derbyn eich llythyr a cheisio anfon ateb llawn o fewn deg diwrnod gwaith.

1 Os ydych chi eisiau cwyno am y ffordd y cafodd achos ei drin, ysgrifennwch at swyddfa'r CPS a fu'n delio â'r achos yn wreiddiol.

Ceisiwch gynnwys cymaint o wybodaeth â phosib, er enghraifft

- enw'r diffynnydd;
- enw'r erlynydd oedd yn gyfrifol am yr achos;
- pa lys fu'n gwrando'r achos;
- dyddiad y gwrandawiad; ac
- unrhyw rifau cyfeirnod sydd gennych.

2 Os na fyddwch yn fodlon â'r atebion a gewch gan y swyddfa leol, cysylltwch â Phrif Erlynydd y Goron ar gyfer y Rhanbarth. Bydd ef neu hi yn gofalu am eich cwyn ac ysgrifennu'n ôl atoch.

3 Os byddwch yn dal yn anfodlon, cysylltwch ag Uned Gwasanaethau i Gwsmeriaid y CPS trwy'r Ganolfan ar gyfer Ymholiadau'r Cyhoedd. Mae manylion sut i gysylltu ar gefn y daflen hon.

4 Os bydd cwynion na ellir eu datrys yn lleol, byddant yn cael eu cyfeirio, drwy'r Uned Gwasanaethau i Gwsmeriaid, at y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu at Brif Weithredwr y CPS. Fe fyddan nhw'n bersonol yn ystyried sut i ymdrin â'ch cwyn, ac yn anfon ateb neu'n trefnu i ateb gael ei anfon atoch.

Mae'n bosib y bydd gan eich Canolfan Gynghori leol ragor o gyngor am ffyrdd eraill o wneud cwyn, neu fe allech chi ysgrifennu at eich Aelod Seneddol lleol.

Mae'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol yn cynnwys nifer o asiantaethau, gan gynnwys y rhai a restrir isod. Dyma fanylion cysylltu os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth.

Y Swyddfa Gartref:
Gwasanaeth Ymholiadau Cyhoeddus, Ffôn: 020 7273 2251
Gwefan: http://www.homeoffice.gov.uk

Yr Adran dros Faterion Cyfansoddiadol:
Ffôn: 020 7210 8500
Gwefan: http://www.dca.gov.uk/

Gwasanaeth y Llysoedd:
Ffôn: 020 7210 2269
Gwefan: http://www.courtservice.gov.uk

Y Gyfundrefn Cyfiawnder Troseddol
http://www.cjs.gov.uk

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO):
Ffôn: 020 7227 3434
e-bost: info@acpo.police.uk

Swyddfa Genedlaethol Cefnogaeth i Ddioddefwyr:
Ffôn: 020 7735 9166

Y Gymdeithas Genedlaethol er Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr:
Ffôn: 020 7582 6500

Gwefan Cyfiawnder i'r Ifanc:
http://www.youth-justice-board.gov.uk

Mae Canolfan Ymholiadau'r Cyhoedd y CPS yn gallu rhoi gwybodaeth gyffredinol am y CPS a chyngor ynghylch pwy i gysylltu â nhw. Nid yw'r uned yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol ond mae'n bosib y gallant gynnig gwybodaeth ymarferol.

Canolfan Ymholiadau'r Cyhoedd y CPS
Ffôn: 020 7796 8500
Gallwyn recordio galwadau ffôn
Cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau a sylwadau:
enquiries@cps.gsi.gov.uk
Gallwch anfon cwynion at:
complaints@cps.gsi.gov.uk

Mae ein Cangen Cyfathrebu yn cynnig nifer o gyhoeddiadau am ddim am y CPS. Mae croeso i chi gysylltu:

Cangen Cyfathrebu y CPS
50 Ludgate Hill, Llundain, EC4M 7EX
Ffôn: 020 7796 8442
E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk
Gwefan: http//www.cps.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael mewn Braille, mewn ieithoedd eraill, neu ar dâp sain. Cysylltwch â'ch swyddfa CPS leol am fanylion.